Adran Gwaith a Phensiynau

# Am **Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol**

Hawdd i'w Ddarllen



Ein cyfeirnod: **IIDB1ERW**_1022

# Cynnwys


1

Adran Gwaith a Phensiynau

**Cyflwyniad**

Tudalen 4

2

IIDB

**Pwy all hawlio Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol**

Tudalen 6

3




**Effeithiau ar fudd-daliadau eraill**

Tudalen 8

4



**Sut i wneud cais**

Tudalen 10

# Cynnwys

5



**Ar ôl i chi anfon eich ffurflen gais**

Tudalen 13

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Darperir Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.



Mae'n cefnogi pobl sydd â salwch neu gyflyrau iechyd penodol oherwydd:

- Damwain a ddigwyddodd yn y gwaith
- Roedd y math o waith yr oeddent yn ei wneud yn arwain at iechyd gwael.

**IIDB**

Weithiau gelwir Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol yn IIDB.




Bydd y wybodaeth yn dweud wrthych:

- Pwy all hawlio IIDB
- Sut mae'n effeithio ar fudd-daliadau eraill
- Sut i wneud cais
- Beth sy'n digwydd ar ôl wneud cais.

I gael rhagor o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am IIDB, ewch i www.gov.uk

Chwilio am **Easy Read IIDB**.

# 2 Pwy all hawlio IIDB

**IIDB**

Os oes gennych salwch neu anabledd a achosir gan waith, efallai y gallwch gael IIDB.



Mae’n rhaid bod eich salwch neu anabledd wedi digwydd:

- Yn ystod swydd gyflogedig
- Yn ystod cwrs neu gynllun hyfforddi cyflogaeth cymeradwy.



Mae’n rhaid bod y salwch neu’r anabledd a achosir gan waith wedi digwydd yn:

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru.

Efallai y bydd rhai pobl yn gallu hawlio am resymau eraill. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/budd-dal-anabledd-anafiadau-diwydiannol/cymhwysedd



Os achoswyd eich salwch neu anabledd yn y gwaith y tu allan i'r Deyrnas Unedig, cysylltwch â'r Ganolfan Pensiynau Ryngwladol.



Gallant ateb unrhyw gwestiynau a gwirio a allwch hawlio unrhyw gymorth y tu allan i'r DU.

I ddod o hyd i'w manylion cyswllt, ewch i [www.gov.uk/international-pension-centre](http://www.gov.uk/international-pension-centre)

# 3 Effaith ar fudd-daliadau eraill





Os ydych yn cael IIDB, gall effeithio ar fudd-daliadau eraill.

## Gall y budd-daliadau yr effeithir arnynt gynnwys:





- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm




- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- Credyd Treth Gwaith
- Gostyngiad Treth Cyngor
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Credyd Cynhwysol.

## Ni fydd IIDB yn effeithio ar rai budd-daliadau gan gynnwys:




- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Gyfraniadau
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
- Pensiwn y Wladwriaeth.




I ddarganfod sut y gall eich budd-daliadau gael eu heffeithio, gallwch ddefnyddio cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/cyfrifiannell-budd-daliadau




Mae faint o IIDB a gewch yn dibynnu ar faint mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch.

I ddarganfod y symiau wythnosol cyfredol o IIDB, ewch i www.gov.uk/budd-dal-anabledd-anafiadau-diwydiannol/beth-fyddwch-chin-ei-gael

# 4 Sut i wneud cais



I wneud cais am IIDB, mae angen i chi lenwi ffurflen gais.

Mae ffurflenni ar wahân i wneud cais am y gwahanol fathau o IIDB.




Mae un ffurflen ar gyfer damweiniau a achosir gan waith, a'r llall ar gyfer afiechydon a achosir gan waith.

Os oes gennych afiechyd o'r gwaith a'ch bod wedi cael damwain yn y gwaith, bydd angen i chi lenwi'r ddwy ffurflen.

I lawrlwytho'r ffurflenni hyn, ewch i [www.gov.uk/government/publications/industrial-injuries-disablement-benefit-claim-forms.cy](www.gov.uk/government/publications/industrial-injuries-disablement-benefit-claim-forms.cy)



Unwaith y byddwch wedi lawrlwytho'r ffurflen gais, llenwch hi gyda beiro.

Cofiwch lofnodi eich ffurflen hawlio cyn i chi ei hanfon i mewn.



Anfonwch eich ffurflenni wedi'u cwblhau i:

Barnsley IIDB Centre
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1SY



Neu gallwch gysylltu â'r ganolfan IIDB a gofyn iddynt anfon ffurflen gais atoch.

Ffôn: **0800 121 8379**

Ffôn testun: **0800 169 0314**




Dywedwch wrthym yn ystod yr alwad os oes angen unrhyw fformatau eraill arnoch fel braille, print bras neu CD sain.



Os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn, defnyddiwch Relay UK:

**18001** yna **0800 121 8379**.



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y byddwch yn gallu defnyddio'r Gwasanaeth Cyfnewid Fideo (a elwir yn VRS).

I ddarganfod sut i ddefnyddio VRS ar ffôn symudol, llechen neu gyfrifiadur personol, ewch i [www.gov.uk/budd-dal-anabledd-anafiadau-diwydiannol/sut-i-wneud-cais](www.gov.uk/budd-dal-anabledd-anafiadau-diwydiannol/sut-i-wneud-cais)

# 5 Ar ôl i chi anfon eich ffurflen gais



Byddwn yn edrych ar y wybodaeth ar eich ffurflen hawlio ac yn penderfynu beth sy'n digwydd nesaf.



Efallai y bydd yn rhaid i chi fynychu apwyntiad gyda gweithiwr meddygol proffesiynol.

Weithiau gelwir hyn yn asesiad meddygol wyneb yn wyneb.




Os byddwn yn penderfynu bod angen yr asesiad hwn arnoch, rhaid i chi fynychu.

Ni fydd eich cais yn cael ei brosesu os na fyddwch yn mynychu heb reswm da.



Os bydd angen asesiad meddygol arnoch, bydd y Ganolfan Asesu Iechyd ac Anabledd yn cysylltu â chi.

**CHDA**

Weithiau gelwir y Ganolfan Asesu Iechyd ac Anabledd yn CHDA.




Bydd CHDA yn anfon gwybodaeth atoch am yr hyn fydd yn digwydd yn yr asesiad meddygol.

I gael rhagor o wybodaeth am apwyntiadau wyneb yn wyneb, ewch i [www.gov.uk/government/publications/attending-a-face-to-face-health-assessment-during-covid-19.cy](www.gov.uk/government/publications/attending-a-face-to-face-health-assessment-during-covid-19.cy)



Ni fydd angen i rai pobl fynychu apwyntiad meddygol.




Ni fydd angen i chi fynychu apwyntiad meddygol os oes gennych rai mathau o glefydau neu os nad oes disgwyl i chi fyw mwy na 12 mis.

I ddarganfod pa afiechydon yw'r rhain, ewch i
www.gov.uk/budd-dal-anabledd-anafiadau-diwydiannol/sut-i-wneud-cais

I gael rhagor o wybodaeth am IIDB, ewch i
www.gov.uk/budd-dal-anabledd-anafiadau-diwydiannol